# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Plas Pawb**

**Ysgol Gynradd Maesincla**
**Safle Plas Pawb**
**Caernarfon**
**LL55 1DF**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

21/10/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chylch Meithrin Plas Pawb

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal plant dyddiol<br>Gofal dydd llawn |
| Unigolyn cofrestredig | Manon Gwynedd |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 28/03/2017 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mewnosod â llaw<br><br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy<br>Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Arolygiad a gynhaliwyd yn ystod pandemig COVID-19 yw hwn, felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid ar y fframwaith ansawdd llawn.

Mae gan blant gyfleoedd da i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Mae ganddynt ystod o weithgareddau diddorol i ddatblygu eu chwarae a dysgu. Maent yn rhyngweithio'n dda ac yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus.

Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Maent yn fodelau rôl da ac yn cynllunio gweithgareddau diddorol ac amrywiol i sicrhau bod y plant yn dysgu ac yn datblygu'n dda.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth fesurau effeithiol ar waith i sicrhau bod y staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a llesiant y plant. Mae'r amgylchedd yn groesawgar, yn lân ac yn darparu digonedd o le ac adnoddau amrywiol o ansawdd dda i hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth weledigaeth gref ac maent yn sicrhau bod y staff yn gymwysedig, yn brofiadol ac yn gweithio'n dda fel tîm. Maent yn cwblhau adolygiadau ansawdd gofal ac yn meddu ar bartneriaethau effeithiol â'r rhieni, yr ysgol a gweithwyr proffesiynol yn er budd y plant.

## Llesiant

Mae gan y plant gyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n cael effaith arnynt. Maent yn gallu symud yn rhydd o amgylch yr ystafell chwarae gan ddewis eu teganau a'u gweithgareddau eu hunain. Mae'r plant yn lleisio'u barn yn hyderus; maent yn mynegi eu hunain yn dda ac yn gwybod bod yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud yn cael ei werthfawrogi. Er enghraifft, maent yn gofyn am ragor o dâp gludiog ar gyfer y gweithgaredd crefft ac mae'r staff yn ymateb yn briodol.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac wedi ymgartrefu'n dda. Maent yn teimlo'n gyfforddus ac yn gartrefol wrth chwarae ochr yn ochr â'r staff a'u ffrindiau. Roedd y plant yn gwenu'n groesawgar wrth i ni gyrraedd ac yn dod atom yn hyderus i weld yr hyn yr oeddem yn gwneud. Maent yn teimlo y rhoddir sicrwydd iddynt pan fydd staff yn eu hateb yn syth. Er enghraifft, maent yn gofyn pan fyddant am ddefnyddio'r toiled ac yn cael cwmni i ddefnyddio'r toiled heb unrhyw ffwdan.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol gyda'i gilydd a'r staff. Maent yn cyfeirio at y staff fel "Miss" gan ddangos parch wrth iddynt siarad â nhw. Mae'r plant yn rhannu'r teganau a gydag ychydig o berswâd yn cymryd eu tro wrth chwarae gyda'r tegan y maent yn ei hoffi. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwrando ar y staff pan ofynnir iddynt dacluso'r adnoddau ac yn canu cân am dacluso wrth iddynt helpu.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae a'u dysgu ac yn mwynhau ystod dda o weithgareddau. Mae rhai plant yn ymdrochi eu hunain yn llwyr i rôl y triniwr gwallt ac yn gwybod yn union sut i ddefnyddio'r offer gwahanol. Er enghraifft, mae lliw gwallt yn cael ei roi ar y gwallt yn ofalus gan ddefnyddio sbatwla, siswrn chwarae ar gyfer torri gwallt a'r sychwr gwallt chwarae i orffen y driniaeth yn berffaith. Mae'r plant yn canolbwyntio'n dda wrth ludo papur tusw lliw i greu pwmpen. Mae eraill yn falch o'r hyn y maent wedi'i gyflawni wrth roi ffens at ei gilydd i gadw'r anifeiliaid bach yn ddiogel. Maent i gyd yn llawn cyffro ac yn bloeddio pan fydd y staff yn dweud wrthynt eu bod yn mynd y tu allan i chwarae. Mae'r plant yn brysur ac yn dysgu trwy eu profiadau chwarae diddorol ac amrywiol.

Mae'r plant yn datblygu i fod yn annibynnol wrth iddynt ddefnyddio cyfleusterau'r toiled ar eu pen eu hunain, ac yn dysgu sut i ymolchi a sychu eu dwylo'n gywir. Mae gan y plant gyfleoedd i chwarae'n ddychmygus a datblygu eu sgiliau iaith drwy'r sgyrsiau di-ri y maent yn eu cael gyda'i gilydd a'r staff. Maent yn dysgu am iechyd da drwy chwarae yn yr awyr iach a bwyta byrbrydau iach. Mae'r plant yn hydradu'u hunain drwy yfed dŵr o'u poteli sydd â'u henwau arnynt.

## Gofal a Datblygiad

Mae’r staff yn deall eu rôl wrth gadw plant yn ddiogel. Maent yn dilyn gweithdrefnau manwl ynglŷn â COVID-19 ac yn gwybod beth i’w wneud os oes ganddynt bryderon diogelu ynghylch plentyn. Mae gan y staff dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol sy'n golygu y gallent roi cymorth cyntaf sylfaenol petai angen. Maent yn llenwi cofrestri presenoldeb yn ddyddiol ynghyd â chofnodion ar gyfer damweiniau a digwyddiadau yn ôl y gofyn. Mae'r staff yn hybu ffyrdd iach o fyw gan sicrhau bod y plant yn cael byrbrydau a diodydd iachus a digonedd o gyfleoedd i chwarae yn yr awyr agored.  Mae'r arwynebau yn cael eu glanhau cyn ac ar ôl bwyta. Mae'r staff a'r plant yn cwblhau ymarferion tân er mwyn iddynt wybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Mae'r staff yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r plant ac yn siarad â nhw gyda llais gofalgar a meddal. Maent yn egluro rheolau rhyngweithio da yn glir ac yn amyneddgar ac yn rheoli ymddygiad amhriodol yn fedrus. Er enghraifft, mae'r staff yn eistedd gyda'r plant mewn ardal dawel er mwyn rhoi cyfle i'r plant feddwl am eu hymddygiad. Maent yn defnyddio ymarferion anadlu fel strategaeth i dawelu'r sefyllfa ac mae hynny'n gweithio'n dda iawn. Mae'r staff yn rhoi clod i’r plant am eu cyflawniadau mewn modd canmoliaethus gan wneud iddynt deimlo'n dda.

Mae'r staff yn defnyddio'u sylwadau ac yn cadw cofnodion ysgrifenedig o gynnydd y plant er mwyn cynllunio eu camau datblygu nesaf.  Maent yn hyrwyddo dysgu wrth iddynt eistedd wrth eu hochr yn cymryd rhan yn y gweithgareddau dyddiol. Er enghraifft, maent yn canu cân adeiladu wrth i'r plant adeiladu siapiau gwahanol. Mae’r staff yn cynllunio gweithgareddau sydd o ddiddordeb i'r plant. Maent yn deall ac yn dilyn gweithdrefnau effeithiol er mwyn cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r staff yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion y plant yn llwyddiannus.

## Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr adeilad yn lân ac yn ddiogel drwy gynnal gwiriadau glanhau a diogelwch yn ddyddiol. Mae drysau allanol cloëdig gyda chod ac ardal chwarae gaeëdig yn yr awyr agored yn sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod. Mae angen i ymwelwyr gwblhau rhestr wirio fanwl cyn iddynt gael mynediad i'r adeilad yn unol â gweithdrefnau COVID-19. Hefyd, mae angen i ymwelwyr lofnodi wrth gyrraedd a gadael. Mae'r systemau hyn yn dangos ymrwymiad cryf i sicrhau bod y plant a'r staff yn cael eu gwarchod.

Mae’r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod gan y plant ddigon o le i symud o gwmpas mewn amgylchedd sy'n ddiogel, yn groesawgar ac yn drefnus sy'n hyrwyddo datblygiad. Maent yn sicrhau bod gan y plant ymdeimlad o berthyn am fod eu gwaith crefft yn cael ei arddangos ac mae ganddynt i gyd eu pegiau eu hunain ar lefel isel i hongian eu heitemau personol. Mae cynllun a dyluniad yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant ac yn diwallu eu hanghenion. Mae ardaloedd chwarae a dysgu diddorol sy'n hawdd i'r plant eu cyrraedd. Maent yn gallu mynd i’r ardal gaeëdig awyr agored yn syth o ystafell chwarae eu hunain ac yn mwynhau gweithgareddau amrywiol yn yr awyr iach. Mae'r brif ystafell chwarae a'r ardaloedd i gyd yn olau, wedi'u haddurno'n llachar a'u gosod yn dda gydag amrywiaeth o adnoddau i annog y plant i archwilio a dysgu trwy chwarae.

Mae’r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod gan y plant adnoddau sy'n lân ac mewn cyflwr da. Mae'r rhain yn annog brwdfrydedd naturiol y plant i i ddysgu a datblygu trwy chwarae. Mae gan weithgareddau i annog plant i fod yn llawn dychymyg bopeth sydd ei angen. Mae dewis da o deganau ac offer sydd wedi'u gwneud o bren. Drwy gydol y gwasanaeth, mae yna ddigonedd o deganau ac offer addas a phriodol o ran oedran i gynnal ac annog diddordeb plant mewn chwarae a dysgu.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae’r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn llawn cymhelliant ac yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol a llwyddiannus i blant. Mae’r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau eu bod yn bodloni rheoliadau a safonau. Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi gwybodaeth i rieni am y gwasanaeth fel y gallant wneud penderfyniad o ran p'un a yw'n addas i'w hanghenion nhw a'u plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn bodloni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg yn llawn gan fod staff yn rhugl yn yr iaith ac mae'r holl bolisïau, gweithdrefnau a gwybodaeth ar gael yn y Gymraeg. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn canolbwyntio ar anghenion y plant, maent yn cael eu diweddaru pan fo angen acmae’r staff yn eu deall.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cynnal adolygiad manwl o'r gwasanaeth yn flynyddol ac yn llunio adroddiad. Roedd yr adborth yn yr adroddiad yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth a ddarperir. Er enghraifft, nododd y rhieni fod 'cysylltiad agos â'r ysgol, staff a'r lleoliad yn ddefnyddiol iawn wrth symud i'r dosbarth meithrin' a bod 'pawb yn garedig'. Cyfeiriodd y sefydliadau sy'n defnyddio’r gwasanaeth at eu cydberthnasau rhagorol a pha mor dda y mae'r staff yn eu helpu i sicrhau bod y plant yn cael y cyfle gorau i ddatblygu hyd eithaf eu gallu. Mae'r gwelliannau cadarnhaol a buddiol a wnaed ar gyfer y plant yn cynnwys datblygu eu man chwarae yn yr awyr agored. Mae gwelliannau pellach ar y gweill i ymestyn y man chwarae yn yr awyr agored yn y dyfodol agos. Mae'r newidiadau hyn yn dangos ymrwymiad i ddarparu buddion sylweddol i ddatblygiad a dysgu'r plant yn yr awyr agored.

Mae’r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cefnogi'r staff yn eu rolau. Mae'r unigolyn â gofal wrth law yn ddyddiol i gynorthwyo’r staff a chadarnhaodd fod gwybodaeth sylweddol yn cael ei rhannu gyda'r tîm cyn i'r sesiynau gychwyn. Cytunodd i gadw rhagor o fanylion ysgrifenedig am y cyfarfodydd hyn ac i gofnodi ei thrafodaethau unigol gyda staff. Mae'r unigolyn cofrestredig yn gweithio ar y safle a phob amser yn fodlon cynnig cymorth ac arweiniad pan fydd angen.

Mae ffeiliau staff ar waith gyda'r rhai a archwiliwyd yn cydymffurfio â'r rheoliadau, gan gynnwys cliriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cadwyd matrics hyfforddi staff, gan ddangos eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddiant gorfodol ar gyfer cymorth cyntaf, gyda'r mwyafrif hefyd wedi mynychu hyfforddiant diogelu plant. Mae llawer o'r staff yn mynychu cyrsiau ychwanegol gyda phob un yn helpu i ehangu eu gwybodaeth o ran gofalu am blant ifanc.  Mae'r staff yn gweithio fel tîm yn eithriadol o dda i sicrhau bod y sesiwn yn rhedeg yn esmwyth. Cytunodd y rhai y siaradwyd â nhw eu bod yn mwynhau eu rolau ac yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn hyrwyddo partneriaethau cadarnhaol gyda rhieni. Cadarnhaodd y rhieni a atebodd holiaduron AGC fod y staff yn eu hysbysu am sesiwn eu plant yn y gwasanaeth yn ddyddiol. Mae'r bartneriaeth sefydledig ac effeithiol gyda'r ysgol yn

sicrhau bod cyfnod pontio'r plant i addysg amser llawn yn esmwyth. Mae hyn o fudd mawr i lesiant y plant a'u canlyniadau chwarae a dysgu yn y dyfodol.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1. Dylid cadw cofnodion o'r cyfarfodydd goruchwylio unigol gyda staff.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 21/12/2021